

CYFARFOD:	Y Cyngor
DYDDIAD:	12 Gorffennaf 2018
AELOD CABINET:	Cynghorydd William Gareth Roberts Cynghorydd Dilwyn Morgan
TEITL:	Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol 2017/18
AMCAN:	I'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol
AWDUR:	Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Statudol a Chyfarwyddwr

I. Cyflwyniad

- I.1 Ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol, mae'n ofynnol i bob Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol baratoi a chyhoeddi adroddiad ynglŷn â dyletswyddau gwasanaethau cymdeithasol o fewn yr awdurdod lleol dros y flwyddyn flaenorol.
- I.2 Diben yr adroddiad blynyddol yw nodi taith yr awdurdod lleol at wella wrth ddarparu gwasanaethau i bobl yn eu hardaloedd, y rheini sydd yn derbyn gwybodaeth, cyngor a chymorth, yr unigolion a'r gofalywr hynny sy'n derbyn gofal a chymorth.
- I.3 O dan ofynion newydd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant mae angen i'r adroddiad ddangos sut mae awdurdodau lleol wedi hyrwyddo lles a rhoi cyfrif am gyflwyno safonau lles.

2. Y Gyfundrefn

- 2.1 Mae'n rhaid i'r cyfarwyddwr lunio Adroddiad Blynyddol a'r gyhoeddi cyn gynted a bod hynny'n ymarferol bosib ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Hwn yw Adroddiad y Cyngor ar ei berfformiad o ran cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, ac mae'n rhaid iddo esbonio'r modd y mae swyddogaethau eraill y Cyngor wedi cyfrannu ar gyflawni canlyniadau o ran llesiant pobl, a'r modd y bydd hynny'n parhau.
- 2.2 Gofynnir i'r Cyfarwyddwr Statudol ystyried yr ystod wybodaeth a phrofiadau sy'n cael effaith ar allu'r Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau dibynadwy a chynaliadwy o'r safon uchaf.
- 2.3 Mae'r Adroddiad yn arfarnu'r perfformiad ar hyd y flwyddyn gan gynnwys gwersi a ddysgwyd, a bydd yn pennu'r amcanion am y flwyddyn i ddod ynglŷn â phobl y mae arnynt angen gofal a chymorth, a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth. Mae'n rhaid iddo ddangos hefyd y modd yr aseswyd anghenion pobl, a'r modd y mae'r gwasanaethau wedi bodloni'r Safonau Ansawdd a benni'r yn y Ddeddf.

3. Argymhelliad

- 3.1 Gofynni'r i'r Cyngor dderbyn yr adroddiad ynghyd a'r blaenoriaethau strategol ar gyfer 2018-19.